# GRYFFYTH, JASPER (bu farw 1614), clerigwr warden ysbyty Rhuthyn, caplan yr archesgob Bancroft, casglwr llawysgrifau

**Enw:** Jasper Gryffyth
**Dyddiad marw:** 1614
**Priod:** Mary Gryffyth
**Plentyn:** Anne Gryffyth
**Plentyn:** Marye Gryffyth
**Plentyn:** Elizabeth Gryffyth
**Plentyn:** Bartholomew Gryffyth
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** clerigwr warden ysbyty Rhuthyn, caplan yr archesgob Bancroft, casglwr llawysgrifau
**Maes gweithgaredd:** Crefydd; Hanes a Diwylliant; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu; Ysgolheictod ac Ieithoedd
**Awdur:** Evan David Jones

Ni wyddys ddim manylion am ddechrau ei yrfa nac am ei gwrs addysg. Ymddengys mai brodor o Gegidfa, ger y Trallwng, ydoedd; yr oedd ganddo eiddo yno, a gadawodd arian i dlodion y plwyf hwnnw i'w rhannu gan ei frawd Robert. Yr oedd yn r o ddysg ac ysgrifennai ei enw mewn llythrennau Hebraeg yn ei lawysgrifau. Daeth o dan nawdd Gabriel Goodman, deon Westminster, sefydlydd ysbyty Crist, Rhuthyn, a daliodd nifer o fywiolaethau eglwysig, rhai ohonynt, o leiaf, drwy ffafr y deon. Yr oedd yn rheithor Longstone, sir Fynwy, o 1595 i 1601, rheithor rhan gyntaf Llansannan o 1605 i 1614, warden ysbyty Rhuthyn o 1599 i 1606, ficer Hinckley, ger Leicester, o 1600 hyd ei farwolaeth yn 1614. Gwnaeth ei ewyllys ar 18 Mai, profwyd hi 28 Mai, a chladdwyd yntau yng nghangell eglwys Hinckley 25 Mai. Enwa'i wraig Mary, ei fab Bartholomew, a'i ferched Elizabeth, Marye, ac Anne, gyda'r awgrym fod y plant dan oed. Merch John Roberts, y Parc, Llanfrothen, oedd ei wraig. Mewn llythyr at Syr Robert Cotton, 1613, enwa Jasper Gryffyth 40 o lawysgrifau Lladin a oedd yn ei feddiant, a darnau eraill mewn Cymraeg a Lladin (B.M. MS. Cotton Jul. C. iii). Bu rhai o'r prif lawysgrifau Cymraeg drwy ei ddwylo, e.e. Llyfr Du Caerfyrddin, Llyfr Gwyn Rhydderch, Llsgrau. Pen. 44 a 53, Brut Dingestow (N.L.W. 5266), Buchedd Gruffudd ap Cynan (Pen. 17), a dwy lawysgrif o gyfraith Hywel yn yr Amgueddfa Brydeinig (Harleian MS. 4353, a Cotton. Cleopatra B. v). Ysgrifennodd Lsgr. Llansteffan 120, a rhannau o Lsgrau. Pen. 316 a B.M. Cotton. Vesp. A. vi.

## Awdur

**Evan David Jones**, (1903 - 1987)

## Ffynonellau


*Cylchgrawn Llyfrgell Genedlaethol Cymru*, i, 168-70, a'r ffynonellau a nodir yno

*NLW MSS*. 1626-7


## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20733337


**Dyddiad cyhoeddi:** 1953



**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu